IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

NOSC 2026 Rhif 65

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2026

Gwnaed	*27 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*30 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ac er mwyn i waith gael ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mawrth 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

NWSI 2026 No. 65

ROAD TRAFFIC

The A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2026

Made	*27 March 2026*
Coming into force	*30 March 2026*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of the likelihood of danger to the public and for works to be undertaken on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2026 and this Order comes into force on 30 March 2026.

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or for the works giving rise to this Order;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 30 Mawrth 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3 metr o uchder neu'n uwch, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Pont Menai rhwng Ynys Môn a Gwynedd.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Mawrth 2026

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A5 London to Holyhead trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 00:01 hours on 30 March 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle with a height of or exceeding 3 metres, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as the Menai Suspension Bridge between Anglesey and Gwynedd.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 27 March 2026

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government